Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Gŵyr

**Stryd Talbot**
**Tre-gŵyr**
**Abertawe**
**SA4 3DB**

**Dyddiad yr arolygiad: 18 Ionawr 2011**

**gan**

**Mr William Gwyn Thomas**

**O dan Gytundeb i**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn ysgol ddynodedig ddwyieithog i fechgyn a merched rhwng 11 ac 19 oed gaiff ei chynnal gan Awdurdod Unedol Abertawe. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yng nghanol Tre-gŵyr ac mae'n gwasanaethu dalgylch eang sydd yn cwmpasu gorllewin Abertawe. Mae'n cynnwys cymysgedd o ardaloedd dinesig, trefol a gwledig yn ogystal ag ardaloedd sydd o dan anfantais economaidd.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o bob gallu.

Mae 644 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 122 o fyfyrwyr yn y Chweched Dosbarth. Yn ystod yr arolygiad diwethaf yn Ionawr 2005, roedd 830 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 170 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Ers yr amser hynny, mae dalgylch yr ysgol wedi ei haneru i ganiatáu agor ail ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn yr Awdurdod Unedol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion dros y cyfnod hwn. Fodd bynnag, dengys y ffigurau arfaethedig gynnydd cyson o Fedi 2011, gan godi i tua 900 erbyn 2016.

Mae gan yr ysgol gyfwerth amser llawn o 42 o staff addysgu a 26 o staff cynnal gyfwerth amser llawn.

Yn 2009-2010, roedd gan 9.1% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn lawer yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1%.

Mae gan 4.4% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae 14.4% pellach angen cymorth ychwanegol. Canran y disgyblion o oed ysgol gorfodol sydd ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig yw 14.4% sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 20.9%. Yn 2010, roedd 17.4% o ddisgyblion 15 blwydd oed ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Mae gan yr ysgol gyfleuster addysgu arbennig ar gyfer naw disgybl sydd ag anawsterau dysgu cyffredinol.

Mae'r holl ddisgyblion yn ddwyieithog gyda 24% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg a 76% yn dod o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn barhaol ym Medi 2002.

Bwriad yr ysgol yw creu cymuned gefnogol, ofalgar ac annog addysg Gymraeg lle mae'r holl ddysgwyr yn tyfu yn eu hunan werth a'u hunan barch ac yn cyrraedd eu potensial llawn.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Gŵyr yw £4477 sy’n cymharu gydag uchafswm o £5430 ac isafswm o £3544 ar gyfer ysgolion uwchradd yn Abertawe. Yr ysgol sydd â’r gyllideb fesul disgybl pedwerydd uchaf o'r 15 ysgol uwchradd yn Abertawe.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae hon yn ysgol ragorol oherwydd:

- gweledigaeth ac ymrwymiad y pennaeth, y tîm rheoli a holl staff yr ysgol i sicrhau'r safonau uchaf ym mhob agwedd o fywyd ysgol;
- y safonau uchel y mae'r dysgwyr yn eu cyrraedd, a'r cynnydd y maent yn ei wneud ar draws y cyfnodau allweddol;
- yr ethos teuluol sy'n gwarchod buddiannau pob dysgwr, beth bynnag bo'i gefndir neu'i allu;
- ansawdd y partneriaethau 14-19 mae'r ysgol wedi'u datblygu;
- profiadau o ansawdd uchel, tu fewn i'r dosbarth, ac yn y rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol; ac
- ansawdd uchel yr addysgu, gofal, cymorth ac arweiniad.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn rhagorol oherwydd:

- arweiniad a gweledigaeth y pennaeth, a'r gefnogaeth gref a gaiff gan yr uwch dim rheoli a holl staff yr ysgol;
- y systemau cadarn sy'n bodoli ar gyfer hunan arfarnu, monitro perfformiad dysgwyr, a chynllunio ar gyfer gwelliant; a
- gallu'r ysgol i ddethol a dewis y blaengareddau priodol ar gyfer datblygu ansawdd yr addysgu, hyfforddiant a rheolaeth.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Gyfun Gŵyr:

A1 parhau i ffocysu ar godi safonau ym mhob cyfnod allweddol trwy gyrraedd y chwartel uchaf yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion meincnodi;

A2 parhau i sicrhau a mireinio'r ddarpariaeth sgiliau yng nghyfnod allweddol 3; a

A3 chydweithio gyda'r Awdurdod Addysg Lleol i sicrhau adeiladau digonol a phwrpasol ar gyfer y twf yn niferoedd y disgyblion.

Mae'r holl argymhellion yn caeleu hadlewyrchu yng nghynllun datblygu'r ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau:  Rhagorol**

Mae perfformiad cyffredinol yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn rhagorol.

O'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau meincnodi prydau ysgol am ddim, mae safonau yn dda neu well er bod canlyniadau'n amrywio ychydig.  Fodd bynnag, mae lleoliad uchel yr ysgol (yn bennaf cyntaf neu ail) o fewn y teulu, perfformiad ddysgwyr sydd yn arwyddocaol uwch na'r disgwyl, safonau da iawn grwpiau o ddysgwyr, medrau disgyblion sydd o ansawdd uchel a'r safonau rhagorol mewn Cymraeg, yn sicrhau fod y safonau at ei gilydd yn rhagorol.

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2010, roedd y dangosydd pynciau craidd (y perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf o'i gymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnodi prydau ysgol am ddim.  Roedd Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg yn y 50% uchaf ac roedd Saesneg yn agos iawn. Yn 2010, roedd canlyniadau yn y pynciau craidd ac yn y dangosydd pynciau craidd yn rhoi'r ysgol naill na'i yn gyntaf neu yn ail o fewn ei theulu o 11 o ysgolion (grwpiau o ysgolion gyda chyfrannau tebyg o ddisgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim, yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, ag anghenion addysgol arbennig ac yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol).  Mae hon yn nodwedd ragorol. Yn 2008, roedd yr holl ddangosyddion yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Yn ystod 2008 i 2010, roedd cyflawniad disgyblion yn uwch na lefel 5 a lefel 6 yn y pynciau craidd yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a'r rhai cenedlaethol. Gwnaeth y disgyblion gynnydd da iawn yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r rhain yn nodweddion da iawn.

Ar nifer o achlysuron dros gyfnod o dair blynedd, roedd cyflawniad disgyblion ar lefel 5 ac uwch ym mron pob pwnc nad oeddent yn bwnc craidd, yn rhagorol. Yn 2010, gosodwyd yr ysgol yn gyntaf gan amlaf yn ei theulu.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2010, roedd perfformiad disgyblion ym mron pob dangosydd yn rhagorol ac yn dipyn yn uwch na pherfformiad y disgyblion yn 2008 ac yn well na'r gwelliannau cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn. Yn 2010, roedd bron pob dangosydd allweddol yn y 25% uchaf o'i gymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau lefelau meincnodi prydau ysgol am ddim. O'i chymharu gyda'i theulu o ysgolion, gosodwyd yr ysgol un ai'n gyntaf neu'n ail ar bron bob achlysur.

Dros gyfnod o dair blynedd, roedd perfformiad y disgyblion yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a'r rhai cenedlaethol. Mae amryw o ddangosyddion, gan gynnwys y trothwy lefel 2 (casgliad o ddysgu sydd yn gyfwerth â phump TGAU ar raddau A*-C) gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg a mathemateg wedi codi o bron i 10 pwynt canradd. Yn gyffredinol, roedd disgyblion wedi gwneud cynnydd da iawn yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol.

Mae perfformiad myfyrwyr y chweched dosbarth wedi gwella'n arwyddocaol dros y tair blynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion sydd yn ennill y trothwy lefel 3 (casgliad o ddysgu sydd yn gyfwerth â dwy Safon Uwch ar raddau A*-E) yn dda iawn. Mae llawer yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol am ddwy o'r blynyddoedd hyn.

Mae'r gwelliant parhaus yn sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yr ysgol (i gyd yn gymwysterau a gymeradwywyd yn allanol) rhwng 2008- 2010 yn nodwedd dda iawn. Mae canlyniadau wedi bod yn gyson uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ac mae'r gwelliant bron ddwywaith mor fawr â'r gwelliant cenedlaethol.

Mae deilliannau Cymwysterau Bagloriaeth Cymru wedi gwneud cyfraniad eithriadol at godi safonau'r chweched dosbarth i ragorol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn ystod 2008-2010, gadawodd bron yr holl ddisgyblion yr ysgol gyda chymhwyster cydnabyddedig. Roedd hyn yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer dwy o'r tair blynedd diwethaf. Ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn 2010, roedd yr holl ddisgyblion wedi parhau gyda'u haddysg llawn amser mewn ysgol, addysg bellach neu mewn hyfforddiant seiliedig ar waith. Ar ddiwedd Blwyddyn 13, roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn parhau mewn addysg a hyfforddiant. Mae'r rhain yn nodweddion da iawn.

I'r gwrthwyneb i dueddiadau cenedlaethol, rhwng 2008- 2010, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar ychydig o achlysuron yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn aml yn llai na ffigurau Cymru.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynnydd rhagorol.  Dengys y rhan fwyaf welliant parhaus ar draws y grwpiau blwyddyn a chyflawni cymwysterau da iawn.  Mae dysgwyr abl a thalentog yn perfformio’n dda iawn a disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda.

Yn gyffredinol, ym mron yr holl wersi a arsylwyd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn.  Maent yn gwrando'n eithriadol o dda, yn siarad yn eglur ac yn mynegi eu safbwyntiau'n hyderus.  Mae eu medrau darllen ac ysgrifennu yn dda neu well.  Mae safonau medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth y disgyblion yn dda neu well yng nghyfnod allweddol 3.  Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r medrau hyn yn rhagorol ac wedi cael effaith cadarnhaol iawn ar ganlyniadau, yn enwedig yn 2010.  Mae'r ysgol yn un o ychydig iawn yn genedlaethol lle llwyddodd bron pob myfyriwr ennill cymhwyster lefel 3 mewn medrau rhifedd.  Ar y cyd, mae'r nodweddion hyn yn rhagorol.

Mewn Cymraeg iaith gyntaf, mae cyflawniad disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn rhagorol dros gyfnod o dair blynedd.  Mae canlyniadau yn y ddau gyfnod allweddol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a rhai cenedlaethol ar bob achlysur.  Mae medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr o safon uchel iawn.  Mae eu medrau dwyieithog yn rhagorol.

**Lles:  Rhagorol**

Mae bron pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn derbyn cefnogaeth bersonol da iawn.  Ymdrinnir â'r ychydig iawn o achosion bwlian yn effeithiol.  Mae bron yr holl ddysgwyr yn ystyriol, yn gwrtais ac yn ymddwyn mewn modd canmoladwy.  Mae ethos teuluol yr ysgol yn arbennig.  Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r nodweddion cadarnhaol hyn wedi arwain at ychydig iawn o waharddiadau dros dro a dim un ohonynt yn barhaol.  Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o sut i gadw'n heini ac yn iach ac mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at ymarfer a diet.  Mae canran y ddysgwyr sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd, chwaraeon a gweithgareddau perthnasol yn eithriadol o uchel ac yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae lefelau presenoldeb y disgyblion yn dda iawn ac yn y 25% uchaf o'u cymharu gydag ysgolion tebyg.  Cyfraddau presenoldeb yr ysgol oedd y gorau o fewn ei theulu o ysgolion yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Ym mron yr holl wersi a arsylwyd, roedd dysgwyr yn cydweithio'n dda iawn ac yn gwneud cynnydd da iawn.  Mae eu hymagwedd tuag at ddysgu yn dda iawn.  Mae lefelau canolbwyntio'r dysgwyr yn ganmoladwy.

Nodwedd ragorol o fywyd yr ysgol yw'r amrediad eang ac amrywiol o gyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr gyfranogi yng nghymuned yr ysgol a thu hwnt.  Mae'r cyngor ysgol, y cyngor blwyddyn, y grŵp Eco ac eraill yn gwneud cyfraniadau pwrpasol at y prosesau gwneud penderfyniadau yn yr ysgol.  Mae dysgwyr yn mynychu cyfarfodydd o'r corff llywodraethu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang sydd â chydbwysedd da ac yn sicrhau y rhoddir amser priodol i gyflwyno gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ysgol yn cynllunio'n hynod o dda er mwyn darparu ar gyfer anghenion y disgyblion beth bynnag eu gallu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cydweithio o fewn yr ysgol a gyda phartneriaid o'r tu allan.

Yng nghyfnod allweddol 3, trwy gydweithrediad rhagorol gyda'r ysgolion cynradd partner, mae cwricwlwm yr ysgol yn adeiladu'n gadarnhaol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n bodoli eisoes.

Yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol i'r holl ddisgyblion. Mae cydweithio'r ysgol gydag Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe'n benodol, ond hefyd gyda darparwyr lleol eraill, yn rhagorol. Mae cydweithio clos wedi sicrhau dilyniant a pharhad mewn amrediad o bynciau, tracio cynnydd disgyblion ac asesu trylwyr, ac amserlenni llwyddiannus er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn gallu dilyn eu llwybr dewisedig. Mae'r ysgol yn rhagori'n fawr ar ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Mae wedi gwneud cynnydd da iawn wrth weithredu'r Llwybrau Dysgu 14-19.

Mae'r paratoad ar gyfer bywyd fel oedolyn yn rhagorol. Mae'r addysg gysylltiedig â gwaith yn rhan annatod o'r cwricwlwm addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd ar draws y cyfnodau allweddol ac mae ansawdd y rhaglenni astudio o safon uchel iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyflwyno'r medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 3 yn dda iawn. Mae cynnwys a gweithrediad y cwrs sgiliau ym Mlwyddyn 7 yn llwyddiannus iawn wrth annog disgyblion i ddod yn ddysgwyr mwy effeithiol. Mae'r ddarpariaeth o sgiliau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth hefyd o safon uchel.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sgiliau sylfaenol yn dda iawn gan gynnig cyfleoedd am gymorth ychwanegol gyda llythrennedd a rhifedd. Caiff y disgyblion mwy galluog a dawnus eu hadnabod a'u herio trwy strategaethau creadigol megis dosbarthiadau meistr ym Mhrifysgol Abertawe, mynediad cynnar i rai pynciau TGAU a strategaethau dysgu ac addysgu heriol sy'n hybu meddwl yn feirniadol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol yn rhagorol. Mae'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr yn llawer uwch na'r disgwyliadau a chaiff pawb eu hannog i gymryd rhan. Mae cymysgedd da iawn o weithgareddau chwaraeon a ffitrwydd, gweithgareddau cerddorol, cynyrchiadau drama a chlybiau mewn amrywiaeth o bynciau. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ddysgwyr weithio gyda sefydliadau.

Mae darpariaeth ragorol ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig o fewn yr ysgol. Trwy strategaethau megis Bagloriaeth Cymru, gwasanaethau, cydweithredu gyda Menter Iaith Abertawe a'r Urdd, gwneir y dysgwyr yn ymwybodol iawn o fanteision a phwysigrwydd dwyieithrwydd. Mae'r dimensiwn Cymreig o fewn cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol yn dda.

Caiff datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eu hyrwyddo'n llwyddiannus gan yr ysgol.

**Addysgu: Rhagorol**

O fewn y sampl o wersi a arsylwyd, mae'r holl athrawon yn cynllunio gwersi'n dda gan ddefnyddio eu gwybodaeth bynciol i fwydo eu cynlluniau gwers. Defnyddir amrediad eang o strategaethau addysgu yn effeithiol iawn. Mae cyflymder da a her i'r holl wersi, gyda nodau ac amcanion eglur. Mae'r holl ddysgwyr wrth eu gwaith yn barhaus. Mae'r athrawon yn cyflwyno sesiynau cloi effeithiol iawn er mwyn sicrhau cynnydd y disgyblion. Mae atgyfnerthu sgiliau mewn gwersi yn nodwedd hynod. Caiff aelodau o'r staff cynnal eu defnyddio’n effeithiol iawn.

Mae'r berthynas rhwng yr holl ddysgwyr a'r athrawon yn rhagorol, ac mae ymddygiad yn y dosbarth yn ganmoladwy.

Mae ansawdd a chysondeb y marcio'n rhagorol. Caiff llyfrau eu marcio'n gyson gyda sylwadau diagnostig a llawn gwybodaeth yn cael eu rhoi i ddisgyblion. Mae'r tasgau asesu rheolaidd o ansawdd uchel ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer targedau manwl ar gyfer gwelliant. Mae strategaethau effeithiol mewn lle i sicrhau y caiff unrhyw waith sydd ar goll ei gwblhau'n ddiymdroi.

Mae amrywiaeth o strategaethau effeithiol mewn lle i sicrhau y caiff hunan asesu ac asesu cymheiriaid eu sefydlu'n dda ar draws yr ysgol.

Caiff dysgwyr eu hysbysu'n dda am eu cynnydd. Mae system tracio cynhwysfawr, cyson ac wrth law sydd yn sicrhau y caiff tangyflawniad ei adnabod yn gynnar. Caiff strategaethau i wella'r sefyllfa eu trafod gyda'r dysgwyr. Mae gan yr holl ddysgwyr ddealltwriaeth dda iawn o'u lefelau perfformiad cyfredol a'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ganddynt er mwyn gwella.

Mae'r adroddiadau i rieni o safon uchel iawn. Derbynia'r rhieni adroddiadau interim a diwedd blwyddyn. Mae'r ddau yn darparu gwybodaeth eglur ar gynnydd, ymdrech ac ymddygiad y dysgwyr ac yn dynodi targedau penodol ar gyfer gwelliant. Caiff rhieni eu hannog i roi sylwadau'n rhydd ar unrhyw fater sydd yn destun pryder iddynt ar yr adroddiadau ac mewn nosweithiau rhieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol hapus a gofalgar. Mae mwynhad y dysgwyr a'u rhan weithredol ym mywyd yr ysgol yn nodweddion rhagorol. Mae trefniadau addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi eu cynllunio'n dda, gan gynnwys addysg yrfaol, yn cyfrannu'n effeithiol at les y disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta'n iach a dulliau iachus o fyw ac mae ar gam 4 o'r fenter Ysgolion Iach. Mae ymrwymiad amryw o staff i weithgareddau allgyrsiol yn nodwedd ragorol.

Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y dysgwyr. Mae rhan weithredol y dysgwyr mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig a chymunedol yn helaeth.

Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad gyrfaol diduedd i'r holl ddysgwyr. Mae hefyd yn arwain disgyblion yn dda iawn i wneud eu dewisiadau pwnc.

Mae'r ysgol yn mwynhau perthynas waith agos ac effeithiol iawn gyda'r rhieni a'r gofalwyr. Mae'r ysgol yn gwrando'n ofalus ar y rhieni a'r gofalwyr ac yn ystyried eu safbwyntiau'n llawn. Mae holiaduron cyson i ddysgwyr a'r cyngor ysgol yn sicrhau y caiff y dysgwyr lais yn y broses gwneud penderfyniadau.

Gwna'r dysgwyr ddefnydd da iawn o gefnogaeth broffesiynol oddi fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol gyswllt effeithiol iawn gydag asiantaethau allanol.

Aelod o'r uwch dîm rheoli yw'r aelod staff dynodedig gyda chyfrifoldeb ar gyfer amddiffyn plant ac mae holl aelodau'r staff wedi eu hyfforddi'n llawn.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol. Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer dynodi anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion gan weithio'n agos gyda'r ysgolion cynradd partner. Mae systemau a strategaethau cadarn i fonitro a chefnogi disgyblion ac i roi mynediad iddynt i gwricwlwm eang a chytbwys.

Caiff disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog eu cynnwys yn dda yng nghymuned yr ysgol.

Mae'r cynlluniau addysgol unigol yn gynhwysfawr. Mae asiantaethau amlddisgyblaethol yn gweithio ar y cyd gyda'r ysgol i sicrhau y caiff disgyblion eu cefnogi'n dda iawn. Caiff rhieni'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu hysbysu’n dda iawn ac maent yn cymryd rhan weithredol lawn yn addysg eu plentyn.

Caiff y disgyblion hynny sydd yn alluog a dawnus mewn maes pwnc penodol eu targedu a'u cefnogi'n dda iawn o fewn y pwnc hwnnw.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu ei pholisïau agored a holl gynhwysol. Mae'r ethos teuluol eithriadol hwn yn seiliedig ar weithrediad polisïau sydd yn parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Mae cyfle cyfartal yn tanategu gwaith yr ysgol gyda phob dysgwr yn cael mynediad cyfartal i bob maes o'r cwricwlwm.

Sicrha'r ysgol fod yr holl ddysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau academaidd a chymdeithasol yn llawn. Mae awyrgylch ddysgu cadarnhaol iawn yn treiddio holl agweddau amgylchedd yr ysgol.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn ddigonol ar gyfer cyflwyno holl agweddau cwricwlwm eang ac wedi gwella'n arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf. Mae arddangosfeydd o waith disgyblion o ansawdd uchel iawn ac i'w cael yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau a choridorau. Maent yn darparu amgylchedd ysgogol a chadarnhaol ar gyfer dysgu.

Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau ar gyfer newid mewn cyflwr da.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn nodwedd ragorol. Mae ganddi weledigaeth eglur ar gyfer yr ysgol a chaiff ei chefnogi'n dda iawn gan aelodau eraill yr uwch dîm rheoli a'r rhan fwyaf o arweinyddion pwnc. Gyda'i gilydd mae ganddynt ymrwymiad eglur a chryf ar gyfer gwelliant ysgol. Maent yn gosod disgwyliadau uchel a gaiff eu cyfathrebu'n effeithiol iawn i'r holl staff trwy'r strwythur pwyllgorau a rheolaeth gydlynol.

Caiff cyfeiriad strategol yr ysgol ei gyfathrebu'n eglur trwy ei chynlluniau a'i pholisïau. Trwy ddadansoddi perfformiad dynodir meysydd ar gyfer gwelliant yn eglur, ac mae'r uwch dîm rheoli a'r rhan fwyaf o arweinwyr wedi llunio strategaethau eglur i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau. Mae'r adolygiad rheolaidd o bwyntiau gweithredu a ddynodwyd wedi sicrhau fod safonau uchel yr ysgol a'i diwylliant dysgu llwyddiannus yn cael eu cynnal a'u datblygu ymhellach.

Mae trefniadau rheoli perfformiad sydd wedi eu strwythuro'n dda yn helpu adnabod targedau priodol ar gyfer anghenion datblygu hyfforddiant unigolion ac ysgol-gyfan. Mae'r ysgol wedi llwyddo cefnogi anghenion hyfforddiant yr holl staff trwy gydweithrediad gyda nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant mewnol.

Mae cynnydd yr ysgol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn nodwedd ragorol. Mae'r ysgol wedi llwyddo datblygu'r ddarpariaeth 14-19, Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth ynghyd â rhaglen bontio eang.

Gwnaed cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r Agenda Trawsffurfio a gweithredu argymhellion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac mae ganddynt broffil uchel yn yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio ac maent yn ymwybodol o faterion allweddol. Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd gwaith y corff llywodraethu yn allweddol wrth sefydlu'r bartneriaeth lwyddiannus iawn gydag Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe a sicrhau darpariaeth ehangach trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr 14-19. Trwy waith yr is-bwyllgor cwricwlwm, mae rôl y llywodraethwyr fel 'ffrindiau beirniadol' yn datblygu'n dda. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a rheoleiddiol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae proses hunan arfarnu'r ysgol wedi ei sefydlu'n effeithiol iawn yn y cynllunio strategol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar lwyddiant yr ysgol o ran y safonau a gyflawnwyd a'r mentrau a gynlluniwyd ac a weithredwyd arnynt er mwyn symud yr ysgol yn ei blaen.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol a'r rhan fwyaf o'r rhai pynciol yn fanwl a chywir. Maent yn seiliedig ar werthuso trylwyr o ddata ar safonau ac ystod o dystiolaeth

uniongyrchol. Mae'r holl adroddiadau wedi defnyddio'r Fframwaith Arolygu newydd yn effeithiol iawn i ddadansoddi'r cynnydd a wnaed a dynodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

Mae'r broses hunan arfarnu yn hyddysg iawn am gryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer datblygiad trwy ystod o weithdrefnau cadarn. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon thematic gan yr uwch dîm rheoli, arolygon llyfrau ar bob lefel a rhannu arfer da gan gymheiriaid.

Mae'r ysgol a'r rhan fwyaf o arweinwyr pwnc yn cysylltu canlyniadau'r hunan arfarnu yn effeithiol iawn i osod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Yn y cynlluniau gwelliant ysgol a'r rhan fwyaf o'r rhai pynciol, ceir ffocws eglur ar godi safonau, ansawdd y dysgu ac arweinyddiaeth gyfrannol. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau yn dynodi targedau mesuradwy gyda her addas, strategaethau penodol ar gyfer gweithrediad a meini prawf llwyddiant manwl.

Mae trafodaeth reolaidd rhwng yr uwch dîm rheoli, arweinwyr pwnc a chynnydd, ac athrawon yn sicrhau llwyddiant yr hunan arfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol yn llwyddo ystyried safbwyntiau dysgwyr, rhieni a'r cyngor ysgol yn rheolaidd. Mewn llawer o achosion, mae'r safbwyntiau hyn wedi arwain at newidiadau cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion datblygiad proffesiynol y staff i gyd yn llwyddiannus iawn. Trwy'r gweithdrefnau rheoli perfformiad cynhwysfawr, dynodir anghenion hyfforddiant eglur. Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn sicrhau cyfleoedd hyfforddiant arloesol i'r holl athrawon ac wrth ddatblygu llawer o gymunedau dysgu proffesiynol. Mae datblygu'r cyfleoedd eang hyn i athrawon rhannu arfer da a thrafod strategaethau eraill ar gyfer addysgu a dysgu yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol.

Gwnaeth yr ysgol gynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a ddynodwyd yn yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi datblygu strategaethau ar y cyd ac arferion gweithio effeithiol iawn gyda'r ysgolion cynradd partner. Mae y rhai hyn yn sicrhau dilyniant a pharhad rhagorol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae'r fenter partneriaeth gydag Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe fel rhan o'r strategaeth 14-19 yn arloesol a hynod effeithiol.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd cadarn ac effeithiol mewn lle er mwyn asesu cynnydd dysgwyr a chadw cyrsiau dan adolygiad rheolaidd.

Mae'r arferion gweithio ar y cyd gydag asiantaethau allanol, busnesau, y sector gwirfoddol a cholegau lleol wedi cyfoethogi'r cyfleoedd sydd ar gael i'r holl ddysgwyr yn arwyddocaol. Mae rhannu adnoddau wedi arwain at gyflwyno'r ddarpariaeth yn hynod o gost effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i gyflwyno'r rhaglen gwricwlwm helaeth yn effeithiol. Mae'n diwallu'r gofynion statudol o ran y cytundeb cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith'. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i ostwng llwyth gwaith gweinyddol y staff addysgu'n sylweddol. Mae'r gostyngiad hwn wedi arwain at welliannau arwyddocaol wrth ddarparu amser ychwanegol i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y safonau uchel a gyflawnir gan y dysgwyr. Mae'r holl staff cynnal yn darparu cymorth rhagorol i'r athrawon a'r dysgwyr.

Gwna'r ysgol ddefnydd rhagorol ac effeithiol o'i hadnoddau dyranedig sydd wedi eu cydweddu'n dda i anghenion y dysgwyr.

Mae'r rheolaeth o'r gyllideb ddyranedig gan yr is-bwyllgor cyllid, y pennaeth cynorthwyol a'r bwrsar yn dangos nodweddion rhagorol. Mae'r cynllunio systematig, gweithrediad, monitro ac adolygu trylwyr o'r gyllideb sydd ar gael yn sicrhau gradd uchel o gost effeithiolrwydd ym mhob agwedd o wariant a buddsoddiad yr ysgol. Mae'r ysgol yn sicrhau perthynas agos iawn rhwng y defnydd o adnoddau a meysydd dynodedig yr ysgol ar gyfer datblygiad.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth rhagorol am arian trwy gyflawniadau ei dysgwyr, y rheolaeth drylwyr o adnoddau, cyflwyniad hynod o gost effeithiol o'r cwricwlwm a'i chysylltiadau partneriaeth cadarnhaol.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad randdeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 48 ymateb i holiaduron y rhieni sydd yn ffigur isel.

Roedd yr holl rieni'n hapus gyda'r gefnogaeth a rhoddir i'w plentyn i ymgartrefu'n dda wrth gychwyn yn yr ysgol.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf yn fodlon gyda'r ysgol gan fod disgwyliadau'n uchel, roedd eu plentyn yn ddiogel a hapus. Caiff plant eu datblygu fel unigolion synhwyrol i gyflawni eu potensial llawn. Rhoddir gwaith cartref priodol iddynt.

Er bod dros 80% yn fodlon gyda'r holl agweddau eraill o fywyd ysgol, roedd llawer o'r farn fod eu plentyn yn derbyn y gefnogaeth ychwanegol priodol mewn perthynas â'u hanghenion penodol a'u bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgol nesaf neu i'r coleg. Mae llawer o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Er bod llawer o'r rhieni o'r farn fod y disgyblion yn ymddwyn yn dda, mynegodd ychydig ohonynt bryder.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniodd Estyn 157 ymateb oddi wrth y dysgwyr.

Dywed yr holl ddysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf yn datgan eu bod yn gwneud yn dda. Mae gan y rhan fwyaf ddigon o adnoddau ac mae'r ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn fwy na digonol. Caiff y rhan fwyaf eu hannog i fod yn gyfrifol a dônt yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datgan fod yr ysgol yn delio'n dda gyda bwlian. Ceir llawer o gyfleoedd i gael ymarfer rheolaidd ac mae'r ysgol yn addysgu llawer sut i gadw'n heini.

Mae llawer o'r dysgwyr yn datgan fod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau, bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn anghytuno gyda'r safbwyntiau hyn.

Dywed llawer o ddisgyblion fod y staff yn eu trin gyda pharch ac yn rhoi cyngor da wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| William Gwyn Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Davies | Arolygydd Tîm |
| Huw Llewelyn | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Heather Lewis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Llinos John | Enwebai'r Ysgol |

Contractwr:

EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic
Ffordd Britannic
Llandarsi
Castell-nedd SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |